Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# AGENDA

***G Ŵ Y S  Y  C Y N G O R***

***At holl aelodau'r cyngor***

***Rydych dan wŷs trwy hyn i ddod i***

***GYFARFOD Y CYNGOR***

***i'w gynnal am 2.00 pm***

***Dydd Mercher, 30 Ionawr 2019***

***yn***

***SIAMBR Y CYNGOR - CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT***

*Bydd Caplan y Maer yn dweud gweddi cyn i'r cyfarfod ddechrau.*

**--- A G E N D A ---**

**RHAN A**

1. *Cyhoeddiadau'r Maer.*

2. *Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant gan aelodau*

3. *Cyflwyniad gan y Prif Swyddog Tân*

4. *Derbyn cofnodion cyfarfod blaenorol y cyngor a'u cadarnhau os ystyrir bod hyn yn addas:* (Tudalennau 5 - 12)

**Blwyddyn Ddinesig 2018/19, 19 Rhagfyr 2018**

**RHAN B**

5. *Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor (Tudalennau 13 - 22)*
(Tudalennau 13 - 22)

*Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol agmaeëdig.*

**RHAN C**

6. *Derbyn y canlynol ac unrhyw gwestiynau a godir gan yr aelodau, neu unrhyw faterion sydd i'w codi gan Aelodau’r Cabinet:-*
(Tudalennau 23 - 52)

Cofnod o benderfyniadau gweithredol y Cabinet a Byrddau'r Cabinet.

**RHAN D**

7. *Hysbysiad o Gynnig dan Adran 10, Rhan 4 (Rheolau Gweithdrefnau) Cyfansoddiad y Cyngor, wedi'i gynnig gan y Cyng. D. Cawsey a'i eilio gan y Cyng. S. Pursey fel a ganlyn:-*
*Noda'r cyngor hwn:*

- *Er bod caethwasiaeth wedi'i diddymu ym 1833, mae mwy o gaethweision heddiw nag erioed o'r blaen yn hanes dynol ryw. Mae ffigurau'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (ILO) yn awgrymu bod dros 40 miliwn o bobl mewn caethwasiaeth fodern ar draws y byd, gyda bron 25 miliwn yn cael eu cadw mewn llafur gorfodol.*

- *Yn 2016, nodwyd bod 3,805 o ddioddefwyr caethwasiaeth fodern yn y DU. Mae hwn yn ffigur sy'n codi ond mae’n llawer is o hyd na’r 10-13,000 o ddioddefwyr posib a amcangyfrifir gan y Swyddfa Gartref.*

- *Mae caethwasiaeth fodern yn digwydd ar draws y genedl. Mae masnachwyr pobl a meistri caethweision yn defnyddio pa fodd bynnag y gallant i orfodi a thwyllo unigolion i fywyd o gam-drin, caethwasanaeth a thriniaeth greulon. Gall hyn gynnwys camfanteisio rhywiol a throseddol.*

- *Mae Llywodraeth Cymru wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau nad yw'r £6 biliwn sy'n cael ei wario yn y sector cyhoeddus yng Nghymru’n cefnogi gweithdrefnau cyflogaeth anghyfreithiol ac annheg gan gynnwys caethwasiaeth fodern, drwy ei Chôd Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.*

Cred y cyngor hwn:

*fod angen cymryd camau gweithredu i gynyddu ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern a'r ffaith ei bod yn digwydd ar draws y DU gan gynnwys yng Nghymru.*

*bod gan y cynghorau hynny rôl bwysig i'w chwarae wrth sicrhau nad yw eu contractau a'u cyflenwadau'n cyfrannu at gaethwasiaeth fodern a chamfanteisio.*

Mae'r cyngor hwn wedi penderfynu:

*Cefnogi Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi a bydd yn gosod darpariaethau, lle bo'n briodol, mewn contractau er mwyn sicrhau bod ein cyflenwyr posib yn cyflawni'r ymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys yn y côd.*

*Llunio Datganiad Caethwasiaeth Fodern sy'n nodi sut bydd y cyngor yn mynd i'r afael â Chaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl. Caiff adroddiad ei gyflwyno i'r Cabinet ac i Bwyllgor Craffu'r Cabinet a fydd yn amlinellu cynnwys y datganiad hwn a'r cynigion ar gyfer ei roi ar waith er mwyn i aelodau ei ystyried a'i gymeradwyo.*

*Derbyn adroddiad cyhoeddus blynyddol ar y gwaith a wneir gan y cyngor i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern ac ar weithredu Côd Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.*

8. *Derbyn unrhyw gwestiynau gan aelodau, gyda hysbysiad, dan Reol 9.2 Rheolau Gweithdrefnau'r cyngor.*

9. *Unrhyw eitemau brys (cyhoeddus neu wedi'u heithrio) yn ôl disgresiwn y Maer yn unol ag Adran 100B (4) (B) Deddf Llywodraeth Leol 1972.*



***Prif Weithredwr***

***CANOLFAN DDINESIG,***
***PORT TALBOT***

**Dydd Iau, 24 Ionawr 2019**